DEDDF CYLLIDO GOFAL PLANT (CYMRU) 2019

EXPLANATORY NOTES

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Cyllido gofal plant ar gyfer plant rhieni sy'n gweithio

7. Mae adran 1(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid gofal plant ar gyfer plant cymhwysol rhieni sy'n gweithio. Mae adran 1(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau faint o ofal plant sydd i'w sicrhau yn unol â'r cyllid a ddarperir o dan adran 1(1). Mae adran 1(3) yn pennu gofynion sylfaenol penodol y mae rhaid i blentyn eu bodloni er mwyn cael gofal plant a gyllidir (gan gynnwys y gofynion bod y plentyn o dan yr oedran ysgol gorfodol, yn blentyn rhieni sy'n gweithio, ac yn blentyn sydd yng Nghymru). Mae hefyd yn caniatáu i Weindogion Cymru osod gofynion eraill mewn rheoliadau. Caiff y gofynion hyn (is-adran (5)) ymwneud â rhiant i'r plentyn.

8. Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon yn ymhelaethu ar y gofynion hyn, er enghraifft drwy bennu pryd y mae person i'w drin fel pe bai'n gwneud gwaith am dâl, pryd y mae plentyn i'w drin fel pe bai yng Nghymru, a phryd y mae person i'w drin fel pe bai'n bartner i berson arall. Er enghraifft, caiff y rheoliadau bennu y bydd person sy'n absennol dros dro o'r gweithle o dan amgylchiadau penodol, megis cymryd absenoldeb rhiant, yn cael ei ystyried fel pe bai yn y gwaith at ddibenion penderfynu ar gymhwystra i gael cyllid.